



Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

## Ysgol Deintyddiaeth

# Dathliadau Pen-blwydd

Dydd Gwener 20 Medi 2024
Gwesty'r Parkgate, Caerdydd

Ymunwch â chyn-fyfyrwyr a staff o'r gorffennol a'r presennol i ddathlu 60 mlynedd o addysg israddedig a 50 mlynedd o'n rhaglen MScD mewn Orthodonteg yn yr Ysgol Deintyddiaeth.

# **Diwrnod Darlith** Goffa Brian Cooke

Mae'r diwrnod datblygiad proffesiynol hwn yn cynnwys rhaglenni darlithoedd cydamserol, gyda siaradwyr gwadd ysbrydoledig a fydd yn edrych ar ychydig o hanes, y sefyllfa bresennol a'r datblygiadau diweddaraf ar draws Deintyddiaeth.

Bydd un rhaglen yn ymchwilio i'r datblygiadau a'r pynciau diweddaraf mewn Orthodonteg, tra bydd y llall yn mynd â chi ar daith drwy ddatblygiad meysydd pwnc eraill, ac yn archwilio'r hyn y gallai'r dyfodol ei olygu i gleifion, addysg a'r proffesiwn.

Byddwch yn rhydd i symud rhwng y ddwy raglen, a bydd y naill a'r llall yn dod i gyfanswm o **5 awr o DPP**.



DentalMonitoring
Smarter Orthodontics

MDU | ORASCOPTIC | ORTHO CARE | solventum | ThermoFisher SCIENTIFIC






# **Noson** o ddathlu

Gyda'r nos fe'ch gwahoddir i dderbyniad diodydd a swper gala tri chwrs, lle byddwn yn dathlu ein 50fed a'n 60fed cerrig milltir, a chyflawniadau ein cymuned anhygoel o gyn-fyfyrwyr a staff.

## Eich lluniau a'ch atgofion

Yn ystod dathliadau'r nos, hoffem hel atgofion drwy arddangos lluniau o'ch amser yng Nghaerdydd ar sgriniau digidol.

Rhannwch gopïau digidol o'ch lluniau gyda ni drwy e-bostio **robertsc8@caerdydd.ac.uk**.



# Rhaglen Darlithoedd Orthodontig

| | |
|---|---|
| 09:00 | **Croeso gan Bennaeth yr Ysgol** |
| 09.15 - 09.20 | **Cyflwyniad i Ymchwil Myfyrwyr a Rhaglenni Rhyngwladol**<br>Cadeirydd - Jenny Galloway, Uwch-ddarlithydd Clinigol mewn Orthodontegs |
| 09.20 - 09.30 | **Cyflwyniadau ymchwil MScD**<br>Siaradwr - i'w gadarnhau |
| 09.30 - 09.40 | **Cyflwyniadau ymchwil MScD**<br>Siaradwr - i'w gadarnhau |
| 09.40 - 09.50 | **Cyflwyniadau ymchwil MScD**<br>Siaradwr - i'w gadarnhau |
| 09.50 - 10.10 | **Datblygu Rhaglen yn Trinidad a Tobago**<br>Trudee Hoyte, Orthodontydd Arbenigol, Darlithydd, Trindad a Tobago |
| 10.00 - 10.30 | **Datblygu Rhaglen ym Malaysia**<br>Azrul Safuan, Athro Cynorthwyol, Prifysgol Islamaidd Ryngwladol Malaysia |
| 10.30 - 11.00 | **Te a choffi** |
| 11.00 - 11.05 | **Cyflwyniad Y Tu Hwnt i Orthodonteg**<br>Cadeirydd - Sheelagh Rogers, Ymgynghorydd Orthodonteg |
| 11.05 - 11.25 | **Hetiau eraill: Rolau ychwanegol Orthodontydd Ymgynghorol**<br>Angharad Brown, Ymgynghorydd Orthodonteg, Cyn-fyfyriwr Orthodontig |
| 11.25 - 11.45 | **Ymchwil a Seland Newydd**<br>John Perry, Ymarferydd Arbenigol, Cyn-fyfyriwr Orthodontig |
| 11.45 - 12.05 | **Datblygu meddalwedd ar gyfer arferion arbenigol**<br>Justin Evans, Ymarferydd Arbenigol, Cyn-fyfyriwr Orthodontig |



# Rhaglen Darlithoedd Orthodontig (parhad)

| | |
|---|---|
| 12.05 - 12.25 | **Orthodonteg a'r Coleg Brenhinol**<br>Charlotte Eckhardt, Ymgynghorydd Orthodonteg |
| 12.25 - 13.30 | **Cinio** |
| 13.30 - 13.35 | **Cyflwyniad Addysg Orthodontig**<br>Cadeirydd - Graham Oliver, Ymgynghorydd Orthodonteg |
| 13.35 - 13.55 | **Gweithio drwy'r Pandemig**<br>Caryl Wilson-Nagrani, Uwch-ddarlithydd Clinigol/Ymgynghorydd<br>Carlen Chandler, Uwch Athro Clinigol |
| **Yr holl gynrychiolwyr i ymuno â'i gilydd ar gyfer y sesiwn nesaf** | |
| 14.05 - 14.15 | **Orthodonteg: Y Gorffennol**<br>Malcolm Jones, Athro Emeritws mewn Orthodonteg |
| 14.15 - 14:40 | **Orthodonteg: Y Presennol a'r Dyfodol**<br>Jennifer Galloway, Uwch-ddarlithydd Clinigol/Ymgynghorydd |
| 14:40 - 15.10 | **Te a choffi** |
| 15.10 - 15.50 | **Darlith Goffa: Edrych i'r dyfodol ar gyfer y proffesiwn Deintyddiaeth**<br>Nicola Innes, Pennaeth yr Ysgol |
| 15:50 | **Cloi a diolchiadau**<br>Philip Stephens, Pennaeth Dros Dro yr Ysgol |

# Deintyddiaeth Capsiwl Amser: O Ddoe i Yfory

| | |
|---|---|
| 09:00 | **Croeso gan Bennaeth yr Ysgol** |
| 09.15 - 09.25 | **Deintyddiaeth Adferol: Y Gorffennol**<br>Alan Gilmour, Athro Emeritws mewn Deintyddiaeth Adferol |
| 09.25 - 09.50 | **Deintyddiaeth Ddigidol: Y Presennol a'r Dyfodol**<br>Nagham Katif, Darlithydd mewn Prosthodonteg Dechnegol |
| 09.55 - 10.05 | **Pydredd: Y Gorffennol**<br>Derek Richards, Ymgynghorydd wedi Ymddeol mewn Iechyd Deintyddol Cyhoeddus, Cyfarwyddwr, Centre for Evidence-Based Dentistry |
| 10.05 - 10.30 | **Pydredd: Y Presennol a'r Dyfodol**<br>Paul Wilson, Darlithydd Clinigol mewn Deintyddiaeth Adferol |
| 10.30 - 11.00 | **Te a choffi** |
| 11.00 - 11.10 | **Deintyddiaeth Bediatrig: Y Gorffennol**<br>Barbara Chadwick, Athro Emeritws mewn Deintyddiaeth Bediatrig |
| 11.10 - 11.35 | **Deintyddiaeth Bediatrig - Y Presennol a'r Dyfodol**<br>Shannu Bhatia, Uwch-ddarlithydd Clinigol mewn Deintyddiaeth Bediatrig |
| 11.40 - 11.50 | **Endotonteg: Y Gorffennol**<br>Jeremy Hayes, Uwch-ddarlithydd Clinigol mewn Endotonteg |
| 11.50 - 12.15 | **Endotonteg: Y Presennol a'r Dyfodol**<br>Arindam Dutta, Uwch-ddarlithydd Clinigol mewn Endotonteg/ Cyfarwyddwr, Rhaglenni Ôl-raddedig a Addysgir |
| 12.20 - 13.20 | **Cinio** |
| 13.20 - 13.30 | **Llawdriniaeth ar y Geg: Y Gorffennol**<br>Jonathan Shepherd, Athro Emeritws mewn Llawdriniaeth ar y Geg, yr Ên a'r Wyneb |





| | |
|---|---|
| 13:30 – 13.55 | **Llawdriniaeth ar y Geg: Y Presennol a'r Dyfodol**<br>Charlotte Emanuel, Uwch-ddarlithydd Clinigol mewn Llawdriniaeth ar y Geg, yr Ên a'r Wyneb |
| **Yr holl gynrychiolwyr i ymuno â'i gilydd ar gyfer y sesiwn nesaf** | |
| 14.05 - 14.15 | **Orthodonteg: Y Gorffennol**<br>Malcolm Jones, Athro Emeritws mewn Orthodonteg |
| 14.15 - 14:40 | **Orthodonteg: Y Presennol a'r Dyfodol**<br>Jennifer Galloway, Uwch-ddarlithydd Clinigol mewn Orthodonteg |
| 14:40 - 15.10 | **Te a choffi** |
| 15.10 - 15.50 | **Darlith Goffa Brian Cooke – Edrych i'r dyfodol ar gyfer y proffesiwn Deintyddiaeth**<br>Nicola Innes, Pennaeth yr Ysgol |
| 15:50 | **Cloi a diolchiadau**<br>Philip Stephens, Pennaeth Dros Dro yr Ysgol |



# **Cadw** eich lle

**Mae'r prisiau ar gyfer y digwyddiad hwn fel a ganlyn:**

**Diwrnod Darlith Goffa Brian Cooke: £95**

**Cinio gala tri chwrs: £95**

Os hoffech ddod i'r diwrnod darlith goffa a'r cinio gala, gallwch brynu'r pecyn llawn am £180.

Dim ond hyn a hyn o lefydd sydd ar gael, a bydd y rhain yn cael eu rhoi ar sail y cyntaf i'r felin, felly **cadwch eich lle nawr!**






# **Gwneud y gorau** o'ch diwrnod

Bydd y ddarlith a'r cinio gala tri chwrs yn cael eu cynnal yng Ngwesty'r Parkgate, yng nghanol dinas Caerdydd.

## Llety

Os ydych chi am aros yng Ngwesty'r Parkgate, cewch elwa o'r pris gostyngol canlynol Ddydd Iau 19 Medi a Dydd Gwener 20 Medi:

**Gwely a Brecwast ar gyfer 1 person: £150.00** (heb gynnwys TAW)*

I elwa o'r gyfradd arbennig hon, archebwch eich ystafell erbyn 8 Awst **drwy eu gwefan**, neu drwy ffonio **+44(0)1633 410252** a dyfynnu'r cod gostyngiad canlynol: **DGD190924**

Fel arall, efallai y byddai'n well gennych ystyried yr **opsiynau llety** eraill sydd gan Gaerdydd i'w cynnig.

## Teithio

Er bod lleoliad y gwesty yng nghanol y ddinas yn golygu na ellir parcio ar y safle, mae digon o feysydd parcio cyhoeddus o fewn pellter cerdded i'r gwesty.

Mae yna hefyd lawer o opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus, gyda Gorsaf Drenau Caerdydd Canolog 5 munud i ffwrdd ar droed.

**Dysgwch fwy.**

# **Cefnogi'r meddyliau gorau** a mwyaf disglair

Mae myfyrwyr wrth galon Prifysgol Caerdydd, ond gall heriau ariannol atal y meddyliau gorau a mwyaf disglair rhag manteisio ar yr addysg a'r cyfleoedd y maen nhw'n eu haeddu.

Drwy gyfrannu at Gronfa Goffa Brian Cooke, rydych yn rhoi'r sylfaen i'r genhedlaeth nesaf o fyfyrwyr deintyddol a chyn-fyfyrwyr Caerdydd ffynnu.

Gallwch wneud rhodd **drwy ein gwefan**. Lle mae'n dweud 'Dywedwch wrthym sut yr hoffech i ni ddefnyddio eich rhodd', dewiswch 'Arall' ac ychwanegwch 'Cronfa Goffa Brian Cooke' i'r blwch sylwadau.



## Cysylltiadau

Cysylltiadau'r ysgol ar gyfer y digwyddiad:

**Cath Roberts**
Rheolwr Digwyddiadau
Robertsc8@caerdydd.ac.uk

**Ellie Harris**
Swyddog Marchnata
Harrise15@caerdydd.ac.uk